Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Plant sydd ar yr ymylon
## Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu

Medi 2024

Yn ystod haf 2024 gwnaethom gynnal cyfres o weithgareddau ymgysylltu i glywed yn uniongyrchol gan ymarferwyr y rheng flaen, arbenigwyr polisi a phlant ynghylch materion sy'n berthnasol i blant coll, plant sy'n destun camfanteisio troseddol, a grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol y trafodaethau hynny.

Cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor, ynghyd â swyddogion y Senedd, bump ymweliad/cyfarfod ymgysylltu yn cynnwys ymarferwyr y rheng flaen, arbenigwyr polisi a phlant. Mae rhagor o fanylion am yr ymweliadau ar gael yn atodiad A.

Barn y rhanddeiliaid a'r plant y buom yn siarad â hwy yw'r safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Maent yn ddienw am resymau diogelu anhysbysrwydd. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu pwyntiau allweddol y trafodaethau a gynhaliwyd

yn ystod ein digwyddiadau rhanddeiliaid; nid yw'n gofnod gair am air o'r trafodaethau hynny.

# Cynnwys

**1. Grwpiau o blant sydd ar yr ymylon .......... 4**

Plant coll .......... 4

Camfanteisio Troseddol ar Blant .......... 6

Ymateb i blant sydd ar yr ymylon: themâu cyffredin .......... 8

**2. Plant sy'n agored i gael eu gwthio i'r ymylon .......... 13**

Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal .......... 13

Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches .......... 13

Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg .......... 13

Plant niwroamrywiol a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol .......... 14

Plant sydd wedi profi trawma .......... 14

Plant sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael .......... 14

**Atodiad A: Gweithgareddau ymgysylltu .......... 16**

# 1. Grwpiau o blant sydd ar yr ymylon

## Plant coll

### Natur a graddfa

**1.** Clywsom yn ystod 2020 y cofnodwyd bod 3,250 o blant wedi mynd ar goll o leiaf unwaith, ac roedd 45 y cant ohonynt yn y system ofal. Aeth y plant hynny ar goll gyfanswm o 11,939 o weithiau. Fodd bynnag, oherwydd anghysondebau wrth gasglu data - yn enwedig o ran y diffiniad o fynd ar goll, sy'n golygu bod lleoliadau gwahanol yn fwy neu'n llai rhagweithiol wrth gofnodi cyfnodau o fynd ar goll - nid yw'r ystadegau hynny mor ddibynadwy ag y gallent fod.[1]

**2.** Yn ystod ein gwaith ymgysylltu clywsom am wahanol ffactorau risg ar gyfer cyfnodau o fynd ar goll:

- Mae plant mewn gofal yn arbennig yn mynd ar goll yn rheolaidd, o bosibl oherwydd eu bod yn anhapus â'u lleoliadau. Efallai y byddant eisiau teithio i awdurdodau lleol eraill i ddianc, neu i ddechrau o’r newydd mewn ardal newydd.
- Dywedodd un plentyn y gwnaethom gyfarfod ag ef yn ystod ein gwaith ymgysylltu ei fod wedi mynd ar goll oherwydd chwalfa yn ei deulu. Byddai'r plentyn yn rhedeg i ffwrdd ar ôl yr ysgol i osgoi gorfod mynd adref, lle nad oedd yn teimlo'n ddiogel.
- Pwysau cyfoedion: weithiau bydd plant yn cytuno â'u ffrindiau i fynd ar goll gyda'i gilydd.
- Problemau iechyd meddwl
- Problemau yn y cartref, fel camddefnyddio sylweddau neu drawma teuluol.
- Rhesymau ariannol: gall plant fynd ar goll i ennill arian gan bobl sy’n camfanteisio arnynt.

**3.** Clywsom dro ar ôl tro fod plant mewn mwy o berygl o gamfanteisio neu niwed yn ystod cyfnodau o fynd ar goll.

[1] Er bod Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi ystadegau ar blant sy'n mynd ar goll o ofal. Gweler: StatsCymru, ‘Plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol’

## Polisi ac arfer

### Ymateb i gyfnod o fynd ar goll

**4.** Clywsom mai un her allweddol i awdurdodau lleol yw gwybod ble mae plant sy’n wynebu risg. Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio ei adnoddau adnabod ei hun ac yn prosesu atgyfeiriadau yn wahanol. Mae enghreifftiau o sut mae plant sy’n wynebu risg yn cael eu dwyn i sylw gwasanaethau statudol yn cynnwys:

- Rhybuddion gan ofalwyr maeth/rhieni/gweithwyr ieuenctid.
- Gwybodaeth gan yr heddlu (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain).
- Atgyfeiriadau gan ysgolion.

### Cyfweliadau dychwelyd

**5.** Mynegodd rhanddeiliaid bryderon yn rheolaidd ynghylch anghysondebau yn y modd y cynhelir cyfweliadau dychwelyd ledled Cymru. Clywsom gan rai rhanddeiliaid mai dim ond chwe awdurdod lleol a gofnododd fod ganddynt wybodaeth am faint o blant y cynigiwyd cyfweliad dychwelyd iddynt yn dilyn cyfnod o fynd ar goll.

**6.** Clywsom alwadau cyson am wneud cynnig cyfweliad dychwelyd yn dilyn pob cyfnod o fynd ar goll yn ofyniad statudol, fel yn Lloegr. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid y dylai’r cyfweliad fod ar amser ac mewn lleoliad sy’n addas i’r person ifanc, ac y dylai fod gyda rhywun y mae’r person ifanc yn ymddiried ynddo.

**7.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym hefyd fod cyfweliadau dychwelyd yn gyfle da i annog plant mewn gofal i fanteisio ar eu hawl i eiriolaeth annibynnol.

### Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

**8.** Siaradodd rhai rhanddeiliaid â ni am ddatblygu'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol, yr oeddent yn gobeithio y byddai’n cynnwys canllawiau penodol am yr ymateb aml-asiantaeth i blant sy’n mynd ar goll. Fodd bynnag, ymddengys bod y gwaith o ddatblygu’r fframwaith wedi oedi. Nid yw’n glir pa gam yr oedd y gwaith hwnnw wedi’i gyrraedd, na beth yw’r camau nesaf.

**9.** Siaradodd rhai gweithwyr proffesiynol â ni hefyd am ddau ddarn o waith ymchwil ar blant yn mynd ar goll a oedd wedi’u comisiynu yn dilyn digwyddiad

bord gron i randdeiliaid gyda Llywodraeth Cymru tua dwy flynedd yn ôl. Nid yw'r gwaith ymchwil hwnnw wedi'i gyhoeddi eto.

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer newid:

- Gofyniad statudol i gynnig cyfweliad dychwelyd ar gyfer pob plentyn sy'n mynd ar goll, i'w gynnal os yw'r person ifanc am wneud hynny, pryd y bydd am wneud hynny, a chyda phwy bynnag y mae'r person ifanc ei eisiau.

## Camfanteisio Troseddol ar Blant

### Natur a graddfa

#### Diffinio Camfanteisio Troseddol ar Blant

**10.** Roedd nifer o weithwyr proffesiynol yn argymell diffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Clywsom, er bod diffiniad yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, nad yw'r diffiniad wedi'i nodi mewn deddfwriaeth. O ganlyniad i hyn, nid yw gwasanaethau statudol yn ei ddefnyddio'n gyson i arwain eu gwasanaethau, ac nid oes ychwaith asiantaeth arweiniol glir i lywio'r ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod y fframwaith cyfreithiol yn y DU yn dal ymdrechion gwasanaethau i atal troseddoli yn ôl ar hyn o bryd.

**11.** Clywsom hefyd fod diffyg diffiniad cyffredin, cytûn o Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth o beth ydyw mewn gwirionedd, a sut i ymateb iddo'n effeithiol.

**12.** Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod gan wahanol awdurdodau lleol ddulliau gwahanol o nodi ac adrodd ar blant sy'n wynebu risg o gael eu troseddoli. Gallai cyfraddau uwch o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Chamfanteisio Troseddol ar Blant yn ystadegau Llywodraeth Cymru adlewyrchu agwedd mwy rhagweithiol at roi gwybod am achosion, yn hytrach na bod nifer uchel o achosion o ymddygiad troseddol.

#### Plant sy'n wynebu risg arbennig o gael eu troseddoli

**13.** Eglurodd gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol wrthym fod llawer o blant sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn yn fwy ar ymylon cymdeithas nag mewn teuluoedd neu wasanaethau prif ffrwd. Dywedodd un wrthym fod rhai plant yn awyddus i fod yn rhan o gang i deimlo eu bod yn perthyn, efallai i gymryd lle ffigyrau rhieni cryf. Dywedodd

rhanddeiliaid eraill wrthym nad yw rhai o'r plant y maent yn gweithio gyda hwy – sydd wedi bod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol – hyd yn oed yn ymwybodol bod pobl wedi camfanteisio arnynt, ac weithiau nad ydynt eisiau cymorth.

**14.** Amlygwyd hefyd fod y grwpiau a ganlyn o blant yn wynebu risg arbennig o Gamfanteisio Troseddol ar Blant:

- Plant sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Plant sy'n agored i niwed ac sy'n nesáu at 18 oed, y gall y cyfnod pontio i fyd oedolion fod yn arbennig o heriol iddynt.

## Polisi ac arfer

### Ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant

**15.** Dywedodd un rhanddeiliad sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu troseddoli wrthym fod diffyg gwasanaethau cymorth i blant sy'n wynebu risg o gael eu troseddoli, a bod hynny wedi bod yn wir erioed. Bwriad gwreiddiol ei waith oedd ehangu i ymyrraeth gynnar, ond mae wedi gorfod parhau i ganolbwyntio ar y grwpiau risg uchaf o blant oherwydd lefelau'r galw am y gwasanaeth.

**16.** Dywedodd rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol wrthym ei fod yn teimlo nad oedd digon o ganlyniadau i'r rhai sy'n camfanteisio.

**17.** Clywsom fod problemau diwylliannol o hyd gyda'r heddlu, gyda rhai yn adrodd weithiau bod tuedd i ystyried plant yn droseddwyr eu hunain, yn hytrach na'u gweld fel dioddefwyr. Dadleuodd un rhanddeiliad nad yw oedolion sy'n Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn cael eu collfarnu am gam-drin plant, a'u bod yn cael eu collfarnu ar gyhuddiadau'n ymwneud â chyffuriau ac ati. Ym marn y rhanddeiliad, mae hyn yn dangos nad yw'r system yn cydnabod eto bod Camfanteisio Troseddol ar Blant yn fath o gam-drin plant.

**18.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn argymell yn gryf tynnu'r sawl sy'n camfanteisio oddi wrth y plentyn, yn hytrach na symud y plentyn o amgylchedd ei gartref. Roeddent yn dadlau nad yw'r arfer presennol o symud y plentyn yn cydnabod mai bywyd y sawl sy'n camfanteisio, yn hytrach na'r plentyn, y dylid tarfu arno. Roeddent yn dadlau bod y dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gyda

Chamfanteisio Rhywiol ar Blant, a bod angen i asiantaethau statudol ei fabwysiadu mewn perthynas â Chamfanteisio Troseddol ar Blant hefyd.

**19.** Clywsom hefyd fod rhai plant yn llithro rhwng y craciau: nid oes ganddynt hawl i wasanaethau cymorth statudol oherwydd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy, ond maent yn wynebu risg o gamfanteisio. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym y gall rhai o'r plant hyn gael eu gwthio i'r system cyfiawnder troseddol, oherwydd o leiaf wedyn bydd ganddynt hawl i rywfaint o gymorth.

**20.** Pwysleisiodd rhai ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sydd wedi'u troseddoli wrthym y dylid canolbwyntio mwy ar atal ac amharu ar gangiau troseddol a rhwydweithiau sy'n camfanteisio ar bobl ifanc. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliannol o ran gweld pobl ifanc sy'n ymwneud â gweithgareddau troseddol fel dioddefwyr caethwasiaeth fodern, yn debyg i'r newid mewn persbectif ar ferched a sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol.

### Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

**21.** Eglurodd rhanddeiliaid wrthym fod y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol wedi'i gynllunio'n sylfaenol ar gyfer gwladolion nad ydynt yn dod o'r DU.

**22.** Clywsom, er y bydd y llysoedd yn ystyried Camfanteisio Troseddol ar Blant o ganlyniad i atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, unwaith y bydd camfanteiswyr yn gwybod bod plentyn wedi cael atgyfeiriad yn ei enw, byddant yn rhoi cyfrifoldebau troseddol ychwanegol i'r plentyn hwnnw, gan wybod bod llai o debygolrwydd y bydd yn cael ei gollfarnu.

**23.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod y Mecanweith Atgyfeirio Cenedlaethol yn ddibwrpas, ac nad oedd yn arwain at ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol i'r plentyn.

## Ymateb i blant sydd ar yr ymylon: themâu cyffredin

### Gwasanaethau a ddarperir gan y sector elusennol

**24.** Dywedodd gweithwyr elusen sy'n gweithio gyda phlant sy'n wynebu risg wrthym fod trefniadau comisiynu tymor hwy gan awdurdodau lleol yn hollbwysig er mwyn iddynt fuddsoddi yn eu trefniadau cymorth a sefydlu tîm cymorth effeithiol.

**25.** Clywsom, er y gall gwasanaethau ataliol fod yn effeithiol iawn, maent yn aml yn cynnwys ymyriadau â therfyn amser, nad ydynt bob amser yn caniatáu digon

o amser i weithwyr ddeall yn llawn beth sy'n digwydd ym mywydau'r plant hyn sy'n agored i niwed, a rhoi cymorth ar waith i'w helpu.

**26.** Clywsom hefyd fod ymddiriedaeth yn hanfodol i feithrin perthynas â theuluoedd. Weithiau mae'n anodd iawn meithrin yr ymddiriedaeth honno gyda gwasanaethau statudol, ac nid yw teuluoedd bob amser yn onest â gweithwyr cymdeithasol. Fodd bynnag, gall gweithwyr elusen annibynnol gyfryngu rhwng y teuluoedd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Clywsom fod llawer o'r gwaith y mae gweithwyr elusen medrus yn ei wneud, yn y bôn, wedi'i wreiddio mewn eiriolaeth plant a theuluoedd.

**27.** Teimlai rhai grwpiau o randdeiliaid fod gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn comisiynu elusennau i'w darparu yn cael eu dwyn i gyfrif yn fwy trwyadl na gwasanaethau mewnol. Fel arfer rhaid i elusennau fodloni targedau penodol i ddangos gwerth am arian, pan nad oes gan wasanaeth mewnol cyfatebol ofynion adrodd mor llym.

**28.** Roedd rhai gweithwyr elusen proffesiynol yn dadlau bod diogelu cyd-destunol yn allweddol i ddarparu gwasanaethau ataliol yn effeithiol.

## Cymorth i rieni

**29.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau'n gryf o blaid Cynadledda Grŵp Teuluol, gan ddadlau bod y drefn honno wedi cefnogi newid diwylliannol tuag at weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y teulu. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfryngu, y nodwyd y gall helpu pan fo perthnasoedd teuluol yn chwalu.

**30.** Nododd eraill yr heriau i rieni sy'n cefnogi eu plant, sy'n debygol o fod yn wynebu risgiau cymhleth a/neu wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Clywsom fod rhieni'n aml yn bryderus ar ran eu plant, ond nad ydynt yn gwybod sut i'w helpu, a'u bod yn poeni y gallai ceisio cymorth i'w plant arwain at dynnu eu plant o'u gofal.

**31.** Awgrymodd rhai gweithwyr proffesiynol y gall yr iaith y mae gweithwyr proffesiynol yn ei defnyddio wrth siarad â phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd fod yn rhy ffurfiol. Roeddent yn argymell mwy o iaith anffurfiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn chwalu'r rhwystrau rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

## Gwasanaethau cymdeithasol

**32.** Nododd rhanddeiliaid yn aml y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol, a oedd, yn eu barn hwy, yn ei gwneud yn heriol i dimau gwaith cymdeithasol weithio'n effeithiol gyda phlant sydd ar yr ymylon a'u teuluoedd.

**33.** Mynegodd eraill bryderon ynghylch yr hyn a welent fel diarddeliad gweithwyr cymdeithasol yn y cyfryngau, sy'n arwain at ddiffyg ymddiriedaeth gyda theuluoedd a hefyd at broblemau recriwtio a chadw o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Clywsom ei bod yn hanfodol bod staff gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi ei gilydd, ac yn codi pryderon am straen neu bryder sy'n effeithio arnynt hwy eu hunain neu eu cydweithwyr os oes angen.

**34.** Clywsom yn rheolaidd am ba mor aml y defnyddir gweithwyr cymdeithasol asiantaeth a'r trosiant uchel o staff gwaith cymdeithasol, nad ydynt yn darparu'r cymorth parhaus sydd ei angen ar blant sy'n agored i niwed. Dywedodd un gweithiwr elusen proffesiynol wrthym am blentyn y mae'n gweithio gydag ef ar hyn o bryd sy'n 11 oed ac sydd eisoes wedi cael 24 o weithwyr cymdeithasol gwahanol.

**35.** Clywsom hefyd am yr hyn a welir bellach fel model hen ffasiwn o 'weithiwr cymdeithasol cryf', y teimlwyd ei fod yn dal yn gyffredin mewn rhai timau gwaith cymdeithasol, sef gweithiwr cymdeithasol a ddylai ddisgwyl gallu ymdopi â'r drasiedi, y cam-drin a'r poen y mae'n ei brofi yn y swydd, heb gymorth proffesiynol parhaus a therapi i'w helpu i reoli'r emosiynau hynny.

**36.** Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod cymaint o bwysau ar amser gweithwyr cymdeithasol fel bod risg y gallent, fel proffesiwn, golli eu sgiliau meithrin perthynas. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol a oedd yn agosáu at ddiwedd ei hyfforddiant i ddod yn weithiwr cymdeithasol wrthym nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar gynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a'u teuluoedd.

**37.** Clywsom ddadleuon cryf o blaid gweithwyr cymdeithasol sydd â'r sgiliau cymdeithasol cywir i weithio gyda phlant sy'n wynebu risg, yn hytrach na chreu timau penodol o weithwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phlant sydd ar yr ymylon.

**38.** Dywedodd un person ifanc wrthym, er bod ganddo weithiwr cymdeithasol rhagorol ar hyn o bryd, ei fod wedi cael cyfres o rai gwahanol ymlaen llaw, a'i bod yn ei chael yn anodd gweithio gyda hwy.

**39.** Roedd rhai grwpiau o weithwyr elusennol yn argymell dull partneriaeth, lle mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr elusennol

arbenigol, sy'n ymgysylltu'n fwy anffurfiol â phlant a'u teuluoedd. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn dadlau mai gweithwyr cymdeithasol yw’r unigolion cyfrifol yn y pen draw, a bydd hyn ynddo’i hun yn ei gwneud yn anodd iawn iddynt ddatblygu perthnasoedd agored, llawn ymddiriedaeth gyda theuluoedd.

**40.** Clywsom gynigion penodol gan rai gweithwyr proffesiynol i leoli gweithiwr cymorth bugeiliol ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru.

## Materion o ran y gweithlu

**41.** Mynegodd nifer o wahanol randdeiliaid bryder ynglŷn â recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel sy’n gweithio gyda phlant sy’n agored i niwed. Fodd bynnag, teimlai rhai gweithwyr proffesiynol fod y darlun cyffredinol yn gwella.

## Gwaith amlasiantaeth

**42.** Clywsom yn gyson fod gwaith amlasiantaeth effeithiol, gan gynnwys cyfarfodydd amlddisgyblaethol, yn hanfodol wrth ymateb i achosion cymhleth a heriol. Mae cyfathrebu effeithiol yn dibynnu ar ymddiriedaeth, gweithio mewn partneriaeth, a chreu perthnasoedd proffesiynol effeithiol. Clywsom fod gallu sefydliadau i fuddsoddi amser i feithrin perthnasoedd aml-asiantaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar eu cyd-destun ariannol a’r pwysau ar adnoddau. Cawsom wybod bod awdurdodau lleol, yn arbennig, weithiau’n cael trafferth cyfathrebu â’i gilydd mor effeithlon ag y dylent.

**43.** Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid defnyddio archwiliadau achos thematig amlddisgyblaethol, lle gall gweithwyr proffesiynol o wahanol dimau (a sefydliadau gwahanol) ddod at ei gilydd i edrych yn onest ar yr hyn sydd wedi digwydd gydag achosion penodol, beth aeth yn dda, a lle gellid bod wedi gwella ar yr ymateb.

**44.** Clywsom bryderon rheolaidd ynghylch capasiti ac argaeledd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi plant sy’n wynebu risg o gael eu gwthio i’r ymylon, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl. Dywedodd rhai ymarferwyr wrthym y gall plant a’u teuluoedd fod â gobeithion uchel o ran Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) yn arbennig. Fodd bynnag, efallai nad CAMHS yw’r gwasanaeth cymorth cywir ar eu cyfer, ac efallai na fydd y plentyn byth yn teimlo ei fod yn gallu siarad yn agored ac yn onest â staff meddygol yn y ffordd sydd ei angen er mwyn i’r cymorth fod yn effeithiol.

**45.** Clywsom hefyd beth pryder ynghylch gorlwytho teuluoedd gyda llawer o weithwyr cymorth gwahanol. Clywsom y gall hyn fod yn llethol, ac y dylid cael

cydgysylltiad rhwng asiantaethau i weithio allan pwy ddylai fynychu cyfarfodydd penodol, a phwy ddylai gynnig gwahanol elfennau o gymorth. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol o blaid cael un person y gellir ymddiried ynddo ar hyd taith y teulu i fod yn bwynt cyswllt ac i arwain ar y gwaith sy'n seiliedig ar berthnasau.

**46.** Clywsom alwadau am symleiddio mentrau deddfwriaeth a pholisi i wneud gweithio gyda phlant sy’n agored i niwed yn fwy effeithlon. Er enghraifft, galwodd rhai am un porth rhannu gwybodaeth, gan dynnu ar fewnbynnau gan amrywiaeth o asiantaethau.

## Yr heddlu

**47.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid inni bwysigrwydd plismona mewn ffordd sy’n ystyriol o drawma.

## Cyllid

**48.** Nodwyd dro ar ôl tro nad oes digon o gyllid ar gyfer gwasanaethau ataliol a ddarperir gan y sector elusennol, a bod hynny’n bryder gwirioneddol o ran sicrhau ymateb amlasiantaethol effeithiol i blant sy’n wynebu risg o gael eu gwthio i’r ymylon. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym, pe bai cyllid yn cael ei dynnu’n ôl ar gyfer prosiectau’r sector elusennol sy’n gweithio gyda phlant sydd ar yr ymylon, ni fyddai unrhyw wasanaeth o gwbl yn bodoli a allai ddarparu’r lefelau cymorth sydd eu hangen ar y plant hyn sy’n agored i niwed.

## Darpariaeth 'cam i lawr'

**49.** Clywsom gan amrywiol randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol ar draws sectorau, unwaith y bydd plant sy’n agored i niwed yn gadael llety diogel, gofal preswyl arbenigol, neu hyd yn oed ofal maeth, mai ychydig iawn o ddarpariaeth ‘cam i lawr’ sydd ar gael i’w cefnogi i gymryd camau cadarnhaol ymlaen yn eu bywydau. Roeddent yn poeni, os bydd pobl ifanc yn gwneud cynnydd drwy’r cymorth a gânt gan weithwyr proffesiynol, unwaith y byddant yn gadael y lleoliad diogel hwnnw efallai na fydd ganddynt ddewis ond dychwelyd i’w hamgylchiadau cythryblus blaenorol, ac yn anochel y byddant yn wynebu’r un risgiau ag o’r blaen. Clywsom am brinder lleoliadau cymunedol ar gyfer plant sy’n agored i niwed sy’n gadael gofal diogel yn benodol.

# 2. Plant sy'n agored i gael eu gwthio i'r ymylon

## Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**50.** Yn ystod ein hymweliadau buom yn siarad ag un person ifanc a oedd wedi'i leoli mewn lleoliad anghofrestredig. Roedd yn drist yno, ac yn teimlo ei fod yn wynebu risg o niwed gan bobl eraill yn y lleoliad.

> *"Fe wnaethon nhw fy nhrin i fel ci."*

## Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

**51.** Mynegodd un grŵp o randdeiliaid bryderon ynghylch plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae'r plant hyn yn aml yn arbennig o agored i niwed oherwydd:

- nad oes neb i'w cefnogi;
- eu bod yn cael trafferth â rhwystrau ieithyddol a diwylliannol;
- nid ydynt yn deall y gwahanol wasanaethau statudol (e.e. yn gallu credu bod pawb sy'n gweithio gyda hwy yn dod o'r Swyddfa Gartref);
- eu bod yn amharod i siarad am bryderon iechyd meddwl.

Eglurwyd bod camfanteiswyr yn yr ardal yn gwybod ble mae'r plant hyn, ac yn ei chael yn hawdd eu recriwtio.

## Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg

**52.** Amlygodd rhanddeiliaid dro ar ôl tro fod plant nad ydynt mewn addysg amser llawn yn wynebu risg uwch o gael eu gwthio i'r ymylon. Clywsom alwadau dro ar ôl tro am i blant gael eu cefnogi'n well i aros yn yr ysgol.

**53.** Dadleuodd un rhanddeiliad, yn hytrach na chanolbwyntio ar bolisïau dim gwahardd, y dylai'r ffocws fod ar wneud addysg yn fwy cynhwysol. Tynnodd sylw at y ffaith, hyd yn oed pe bai gennych bolisi dim gwahardd ar waith, na fyddai hyn yn gwarantu y byddai pob plentyn sy'n agored i niwed yn mynychu'r ysgol oherwydd bod llawer o blant yn gwrthod mynychu'r ysgol, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u gwahardd.

**54.** Dywedodd gweithwyr proffesiynol amrywiol sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phlant sydd ar yr ymylon wrthym fod y plant, bron yn ddieithriad, (ac yn aml aelodau eraill o’u teuluoedd hefyd) wedi cael profiad gwael gydag addysg.

**55.** Eglurodd un grŵp o randdeiliaid wrthym fod plant sy’n agored i niwed weithiau’n amharod i ddod i’r ysgol. Gall plant gael eu gwahardd yn ddyddiol, a gall fod yn haws iddynt beidio â mynychu o gwbl.

**56.** Clywsom bryder arbennig ynghylch darpariaeth addysgol ar gyfer plant na allant fynd i Unedau Cyfeirio Disgyblion. Clywsom dro ar ôl tro fod ysgolion yn ganolfannau ar gyfer gwasanaethau amddiffynnol, ataliol, a bod peidio â mynychu’r ysgol yn ffactor risg enfawr i blant sy’n wynebu cael eu gwthio i’r ymylon.

## Plant niwroamrywiol a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

**57.** Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym, yn eu profiad hwy, fod plant sydd ar yr ymylon yn aml yn niwroamrywiol mewn rhyw ffordd. Mae’n bwysig helpu’r plant hynny i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys gan feddygon teulu. Hyd yn oed os yw rhestrau aros yn hir ar gyfer asesiadau a diagnosis, gall fod yn bwysig mynd drwy’r broses i helpu’r plentyn a’i deulu i ddeall unrhyw heriau hirdymor y gallent eu hwynebu.

**58.** Roedd gan randdeiliaid eraill safbwyntiau tebyg, gan d dweud wrthym fod gan fwy a mwy o blant sydd wedi’u gwthio i’r ymylon anghenion dysgu neu eu bod yn niwroamrywiol mewn rhyw ffordd.

## Plant sydd wedi profi trawma

**59.** Dywedodd staff yn Uned Ddiogel Hillside wrthym, yn ddieithriad fwy na thebyg, fod yr holl blant sy’n aros yn yr uned – boed drwy atgyfeiriadau gan yr awdurdod lleol neu drwy’r Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid – wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma wrth gefnogi'r plant hyn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i reolaeth y ganolfan.

## Plant sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael

**60.** Clywsom fod plant sy’n dioddef o iechyd meddwl gwael – a phlant y mae eu teulu’n dioddef o iechyd meddwl gwael – yn wynebu risg uwch y bydd eu pethnasoedd teuluol yn chwalu yn y byrdymor. Yn ei dro, gall hyn arwain at blant

yn rhedeg i ffwrdd, yn dod yn rhan o gangiau, neu fod rhywun yn camfanteisio arnynt fel arall.

# Atodiad A: Gweithgareddau ymgysylltu

Cysylltodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid allweddol dros yr haf yn 2024 i ofyn am gymorth i hwyluso ymweliadau ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol rheng flaen, plant, ac arbenigwyr polisi. Gwnaethom dderbyn cynifer o gyfleoedd ymgysylltu ag a ganiatawyd gan ein blaenraglen waith.

| Dyddiad | Sefydliad/digwyddiad cynnal | Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu |
|---|---|---|
| **27/06/24** | **Barnardo's (tîm Ymateb Cyflym)**<br>Casnewydd | Trafodaeth bord gron gyda staff a gyflogir gan Barnardo's fel rhan o'u tîm Ymateb Cyflym a staff Cyngor Dinas Casnewydd i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng.<br>Cyfarfod gyda phlentyn sy'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan y tîm Ymateb Cyflym. |
| **27/06/24** | **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru (cyfarfod grŵp llywio 'Colli'r Pwynt')**<br>Caerdydd | Trafodaeth bord gron fel rhan o gyfarfod grŵp llywio 'Colli'r Pwynt'. Cynnwys staff o NYAS Cymru, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), Consortiwm Comisiynydd Plant Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Cymdeithas y Plant, Academi Cyfryngau Cymru (MAC), yn ogystal â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwr maeth a rheolwr cartref gofal preswyl. |
| **27/06/24** | **Cyngor Bro Morgannwg**<br>Y Barri | Trafodaeth bord gron gyda staff y cyngor a staff Cyfiawnder Ieuenctid a gweithwyr cymorth y rheng flaen. |
| **08/07/24** | **Gweithredu dros Blant**<br>Rhithwir | Trafodaeth ar-lein gyda staff Gweithredu dros Blant yn y DU. |
| **10/07/24** | **Cartref Plant Diogel Hillside**<br>Castell-nedd | Taith o amgylch y cartref, gan gynnwys trafodaeth â staff y cartref gofal a phlant y cartref.<br>Cyflwyniad a thrafodaeth bord gron gyda staff cartrefi gofal a chynrychiolwyr o Adran Addysg Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Gwasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot. |